# SL(6)008 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn enwedig yr esemptiadau o’r gwaharddiad ar fynediad i Gymru o wledydd ar y rhestr goch. O dan y Rheoliadau hyn, mae'r esemptiad ar gyfer morwyr ac arolygwyr a syrfewyr llongau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd ar y rhestr goch wedi ei ddiwygio i eithrio personau o'r fath sy'n dod i Gymru i weithio ar longau mordeithio.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymestyn dyddiad dod i ben y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr hyd at 31 Mai 2022.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o bobl sydd wedi'u hesemptio o’r gwaharddiad ar ddod i mewn i Gymru o wlad ar y rhestr goch drwy eithrio o'r esemptiad bersonau penodol sy'n dod i Gymru i weithio ar longau mordeithio.

Mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Mai 2021, dywedodd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod y Rheoliadau'n angenrheidiol ac yn gyfiawn "o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn".

Fodd bynnag, nid oes esboniad o'r dystiolaeth na'r rhesymau pam mae angen y newid penodol hwn a pham mae angen eithrio'r grŵp penodol hwn o bobl o'r esemptiad (tra bod grwpiau eraill yn parhau i fod wedi'u hesemptio).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Mai 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

> "*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwynt rhinweddau 1.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**8 Mehefin 2021**